

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 1af Rhagfyr, 2022 at 2.00 pm

PRESENT: County Councillor Laura Wright (Chairman)
County Councillor Ann Webb (Vice Chairman)

County Councillors: Tony Kear, Catrin Maby, Jan Butler, Ian Chandler, Sara Burch, Alistair Neill, Su McConnel, Mary Ann Brocklesby, Fay Bromfield, Jane Lucas, Emma Bryn, Peter Strong, Meirion Howells, Paul Griffiths, Jackie Strong, Rachel Garrick, Maria Stevens, Steven Garratt, Angela Sandles, Ben Callard, John Crook, Tomos Davies, Dale Rooke, Catherine Fookes, Sue Riley, Jayne McKenna, Jill Bond, Louise Brown, Lisa Dymock, Tony Easson, Christopher Edwards, Martyn Groucutt, Simon Howarth, Richard John, David Jones, Penny Jones, Malcolm Lane, Phil Murphy, Paul Pavia, Maureen Powell, Frances Taylor, Tudor Thomas, Armand Watts and Rachel Buckler

OFFICERS IN ATTENDANCE:

Matt Phillips	Pennaeth Cyfraith/Swyddog Monitro
Paul Matthews	Prif Weithredwr
Peter Davies	Prif Swyddog, Adnoddau
Jane Rodgers	Pennaeth Gwasanaethau Plant
Will Mclean	Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc
Nicola Perry	Uwch Swyddog Democratiaeth
Frances O'Brien	Prif Swyddog, Cymunedau a Lle
Matthew Gatehouse	Pennaeth Polisi a Llywodraethiant
Mark Hand	Pennaeth Lluo Lle, Tai, Priffyrdd a Llifogydd

APOLOGIES:

County Councillors

1. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2022

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27^{ain} Hydref gan nodi'r canlynol:

- Roedd y Cynghorydd Sirol Rachel Buckler wedi bod yn bresennol.
- Tudalen 3 o'r cofnodion Tynnwch y llinell ganlynol:
Ar ôl cael ei roi i bleidlais derbyniwyd y diwygiad a chafwyd trafodaeth.

2. Datganiadau o Fuddiant

Datganodd y Cynghorydd Sirol Su McConnel fuddiant personol, nad yw'n rhagfarnus mewn perthynas ag eitem 7.3 gan ei bod yn cael ei chyflogi gan HMPPO.

Datganodd y Cynghorwyr Sirol, Frances Taylor, Tony Kear a Tony Easson fuddiant personol, nad yw'n rhagfarnus mewn perthynas ag eitem 7.3.

3. Cwestiynau gan y Cyhoedd

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 1af Rhagfyr, 2022 at 2.00 pm

Gwahoddodd y Cadeirydd i Mr Woodfield gyflwyno ei gwestiwn i'r Cyngor.

Cyn gofyn ei gwestiwn amlygodd Mr Woodfield bwrpas y Cyngor o adeiladu cymunedau cynaliadwy a gwydn, a gwerth bod yn agored a thegwch. Aeth ymlaen i ofyn beth am ail gyflwyniad y cais codi'r gwastad, ar ran Glannau Hafren, gan gynnwys unrhyw ystyriaeth o gynigion ar gyfer Canolfan Hamdden Cil-y-coed, yr oedd y Cyngor yn teimlo embaras yn eu cylch, gan gynnwys gwadu cydnabod y gofynion cyfreithiol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a darparu copi o'r cais i etholwyr sy'n talu treth.

Ychwanegodd Mr Woodfield, ar ôl cyflwyno'r cwestiwn, ei fod wedi cael mynediad at fersiwn wedi'i olygu o'r ail gais. Roedd atodiadau ar gael yn dilyn rhagor o waith golygu.

Mewn ymateb fe wnaeth y Cynghorydd Sirol Paul Griffiths gydnabod arwyddocâd y cwestiwn a chytunodd y dylai'r dogfennau fod ar gael i ddinasyddion Sir Fynwy ac ymddiheuro am y ffaith nad oedden nhw wedi bod. Eglurodd fod y broses o olygu gwybodaeth fasnachol sensitif yn angenrheidiol ac yn deall ei bod wedi cymryd gormod o amser. Roedd y weinyddiaeth newydd wedi derbyn y ceisiadau a baratowyd ac roeddent wedi gweithio gyda swyddogion i gyflwyno mewn pryd ar gyfer Gorffennaf 2022. Roedd yn falch eu bod bellach yn y parth cyhoeddus.

4. Cyhoeddiad y Cadeirydd

Nodwyd.

5. Adroddiadau'r Cyngor:

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021/22 Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Croesawodd y Cadeirydd Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor ar gyfer 2021/2022.

Cadarnhaodd yr adroddiad fod y pwyllgor wedi cwrdd â'i gylch gorchwyl dros y flwyddyn ac yn tynnu sylw at ystod o bapurau a ystyriwyd.

Pan ofynnwyd iddo ba feysydd y gallai'r pwyllgor wneud cyfraniad mwy, cyfeiriodd Cadeirydd y pwyllgor at heriau risg pobl a'r gweithlu. Cyfeiriodd at Strategaeth Pobl y disgwylir iddi ddod i'r amlwg yn 2023, a phwysleisiodd bwysigrwydd cynnal llinell olwg dros y materion pobl yr ymdrinnir â hwy.

Ar ôl cael ei roi i bleidlais penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhellion:

Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo'r adroddiad hwn ac yn argymhell ei gyflwyniad i'r Cyngor, fel y cadarnhawyd yng nghofnodion cymeradwy'r Pwyllgor dyddiedig 14 Gorffennaf 2022.

Bod y Cyngor yn derbyn ac yn cymeradwyo'r adroddiad hwn.

7. STRATEGAETH A FFEFRIR Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd, yr Aelod Cabinet dros Economi Gynaliadwy'r adroddiad er mwyn ceisio cytundeb y Cyngor i'r Cytundeb Cyflawni newydd a chymeradwyaeth y Cyngor i ddechrau ymgynghori/ymgysylltu statudol a chyfranogiad rhanddeiliaid ar y Strategaeth Newydd a Ffefrir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ac ymgynghori ar y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 1af Rhagfyr, 2022 at 2.00 pm

Mynegodd yr aelodau bwysigrwydd bod seilwaith addas ar waith cyn datblygu'r cynllun.

Cydnabuwyd bod hwn yn gynllun cyfaddawd a bod 50% fforddiadwy yn ddyhead gwych ond efallai na fydd modd ei gyflawni. Nodwyd y dylid cael cynllun ynghylch cyflogaeth hefyd.

Roedd yr aelod ward dros Borth Sgiwed yn teimlo na allai gefnogi'r cynllun gan ystyried y byddai'r syniad o ychwanegu 925 o eiddo pellach yn anghymesur. Ychwanegodd bod angen buddsoddiad hanfodol ar ardal Cil-y-coed.

Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau Cynhwysol a Gweithgar fod y cynllun yn gosod y sylfaen ar gyfer twf mewn aneddiadau cynaliadwy ac ychwanegodd fod ymrwymiad i ddatblygu cysylltiadau teithio llesol.

Mynegodd y Grŵp Llafur ddryswch ynghylch y diffyg cefnogaeth o ystyried bod gweinyddiaeth flaenorol y Ceidwadwyr wedi datblygu cynllun gyda mwy o ardaloedd tai wedi'u cynnig a'r realiti o wrthod y dull arfaethedig yw na fyddai tai newydd am gryn amser.

O ran cynllun trafndiaeth, clywsom fod y fframwaith newydd ar gyfer cynllun rhanbarthol, ond bydd swyddogion yn darparu cynllun lleol yn 2023.

Roedd Arweinydd yr Wrthblaid yn teimlo bod diffyg cyfathrebu wedi bod ar ffordd osgoi Cas-gwent, gan ei fod yn ddarn allweddol o seilwaith a gofynnodd am ragor o wybodaeth am gwmni datblygu a redir gan y cyngor.

Ar ôl cael ei roi i bleidlais penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhellion:

Cytuno ar y Cytundeb Cyflawni diwygiedig ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd i'w gyflwyno i'r Gweinidog Newid yn yr Hinsawdd i'w gymeradwyo.

Cymeradwyo'r Strategaeth Newydd a Ffefrir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd i'w chyhoeddi ar gyfer ymgynghori/ymgysylltu statudol a chyfranogiad rhanddeiliaid.

Cytuno i ymgynghori ar y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir newydd.

8. POLISI DIOGELU CORFFORAETHOL

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol yr adroddiad i hysbysu aelodau o'r diwygiadau i'r Polisi Diogelu Corfforaethol a cheisio cymeradwyaeth o'r polisi diwygiedig.

Awgrymodd y Cynghorydd Sirol Ian Chandler y dylid gwrthod y polisi oherwydd diffyg craffu. Nododd fod y polisi yn cyfeirio at Bwyllgorau Dethol ac nad oedd yn adlewyrchu strwythur newydd y Cyngor.

Amlygodd y Cynghorydd Sirol Penny Jones fod yr arolygiaeth wedi craffu ar y polisi a gwelwyd ei fod mewn cyflwr da.

Gofynnwyd cwestiwn i'r Aelod Cabinet o ran a oedd yn credu y dylid ail-werthuso'r polisi gan gyfeirio at adolygiadau lleol a chenedlaethol diweddar.

Eglurodd y Prif Swyddog Diogelu a Gofal Cymdeithasol fod swyddogion yn edrych drwy adroddiadau'n rheolaidd drwy drefniadau diogelu rhanbarthol ac yn deall sut mae angen addasu

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 1af Rhagfyr, 2022 at 2.00 pm

arferion neu brosesau ac eglurodd fod y gwerthusiad blynyddol yn cael ei ddwyn i mewn i ddiogelu a'i gymryd drwy graffu a'r Cyngor Llawn ym mis Hydref 2022.

Ailadroddodd y Cynghorydd Sirol Frances Taylor y cais i godi camau i nodi'r cynlluniau craffu ynghylch yr adroddiad.

Ar ôl cael ei roi i bleidlais penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhelliad:

Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Polisi Diogelu Corfforaethol diwygiedig.

9. Cynigion i'r Cyngor:

10. Cyflwynir gan y Cynghorydd Sirol Penny Jones

Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r pryderon hirsefydlog am ddiogelwch ar y ffyrdd rhwng cylchfan Pecyn Dogfen Gyhoeddus yr A40 Rhaglan a chyfnewidfa'r A40/A449. Yn cytuno y bydd yr aelod cabinet priodol yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i annog Gweinidogion i gyflymu astudiaeth diogelwch ar y ffyrdd a ariennir yn llawn yn 2023/24 ac ymrwymo i gyflawni unrhyw welliannau diogelwch ar y ffyrdd a argymhellir yn ddi-oed.

Eiliodd y Cynghorydd Sirol Jayne McKenna y cynnig ac wrth wneud hynny cyfeiriodd at ddamwain drasig a ddigwyddodd 30 mlynedd yn ôl a mynegi siom ein bod yn dal i drafod yr un materion. Mae'r rhan hon o'r A40 yn parhau i fod yn anniogel ac nid yw'n addas i'r diben ar gyfer y traffig sy'n ei ddefnyddio. Mynegodd bryder am y diffyg data.

Rhannodd yr Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd y pryderon ynghylch diogelwch ac ymrwymodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i annog bod yr arian ar gael i frw ymlaen yn 2023/24

Ar ôl cael ei roi i bleidlais cafodd y cynnig ei dderbyn.

11. Cyflwynir gan y Cynghorydd Sirol Jackie Strong

Mae Cyngor Sir Fynwy yn nodi'r bygythiad i barhad gweithredu'r Brif Swyddfa Bost yng Nghil-y-coed oherwydd bod y cwmni archfarchnad Morrisons yn ildio'r brydles sydd ar hyn o bryd yn cynnal busnes Swyddfa'r Post. Mae Cyngor Sir Fynwy yn deall pwysigrwydd cynnal prif wasanaeth Swyddfa'r Post yng Nghil-y-coed. Mae'n croesawu'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud i ddiogelu'r gwasanaeth hwn ac yn ymrwymo i gymryd camau i gefnogi parhad y gwasanaeth hwn yn y dref..

Cefnogodd y Cynghorydd Sirol Tony Kear y cynnig, ac wrth ychwanegu ei gefnogaeth gofynnodd i'r llinell ganlynol gael ei hychwanegu at y cynnig:

Bod Cyngor Sir Fynwy yn ymrwymo i ddyfodol hirdymor yr unig Swyddfa Bost sy'n cael ei rhedeg gan y cyngor yn y DU ym Mrynbuga.

Amlygodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau'r heriau cyllidebol sy'n cael eu hwynebu ond nid welodd reswm i beidio â chefnogi'r diwygiwyd.

Cafwyd trafodaeth ar y cynnig fel y'i diwygiwyd.

Datganodd y Cynghorydd Sirol Tony Eason fuddiant fel aelod o Gyngor Tref Cil-y-coed.

Ar ôl cael ei roi i bleidlais derbyniwyd y diwygiad. Bu trafodaeth yn dilyn hynny.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 1af Rhagfyr, 2022 at 2.00 pm

*Gadawodd y Cynghorydd Sirol Tudor Thomas am 16:51
Gadawodd y Cynghorydd Sirol Ian Chandler am 16:56*

Roedd yna sylwadau bod gan yr awdurdod rôl i'w chwarae ond nid un ariannol. Gallai hyn fod yn rôl i Gynghorau Tref a Chymuned.

Roedd cydnabyddiaeth o'r ddarpariaeth a'r gwasanaeth hanfodol y mae Swyddfa'r Post yn ei ddarparu yng Nghil-y-coed.

Gwnaed sylw efallai na fydd rôl y Cyngor o ran cefnogi'r gwasanaeth yn un ariannol, a byddai'n anodd disgwyl i'r awdurdod fod mewn sefyllfa i sybsideiddio ac ariannu rhedeg pob swyddfa bost.

Roedd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau o'r farn ei bod yn hanfodol i drigolion, busnesau bach a grwpiau cymunedol gael mynediad at wasanaeth Swyddfa'r Post.

Ar ôl cael ei roi i bleidlais cafodd y cynnig ei dderbyn.

12. Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sirol Richard John

Mae gan y Cyngor hwn y parch mwyaf at waith ein partneriaid yn Heddlu Gwent i gadw ein cymunedau'n ddiogel. Mae'r Cyngor yn mynegi sioc a siom wrth weld adroddiadau yn y cyfryngau sy'n honni diwylliant o wreig-gasineb, hiliaeth, homoffobia, a llygredd yn yr Heddlu. Mae'r Cyngor yn penderfynu ysgrifennu at Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent i fynegi braw'r Cyngor hwn a gofyn iddo fynychu pwyllgor dethol yn Sir Fynwy i roi sylw i bryderon yr aelodau.

Eiliwyd gan y Cynghorydd Sirol Lisa Dymock

Datganodd y Cynghorwyr Sirol Tony Kear a Tony Easson fuddiannau personol, nad ydynt yn rhagfarnus, fel aelodau o Banel Heddlu a Throseddu Gwent.

Cymeradwyodd yr Arweinydd y cynnig yn llawn, gan gytuno bod hyn yn frawychus, ond nid yn syndod. Nododd nad oes goddefgarwch o fewn y Cyngor i aflonyddu rhywiol, ac i unrhyw fath o gamdriniaeth yn erbyn unrhyw un waeth beth fo'u rhywedd. Roedd y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi cael gwahoddiad i annerch y Cyngor drwy Seminar Aelodau.

Mynegwyd fod hon yn broblem mewn sefydliadau gwrywaidd a chanmolwyd Arweinydd yn Wrthblaid ar gyflwyno'r cynnig i'r Cyngor.

Gadawodd y Cynghorydd Sirol Tomos Davies am 17:25

Roedd pryderon nad oedd ffigyrau yn cael eu hadrodd.

Amlygwyd bod adolygiad annibynnol o Heddlu Gwent yn cael ei gynnal gan Heddlu Wiltshire.

Ar ôl cael ei roi i bleidlais cafodd y cynnig ei dderbyn.

13. Cwestiynau gan Aelodau

14. Gan y Cynghorydd Sirol Paul Pavia i'r Cynghorydd Sirol Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 1af Rhagfyr, 2022 at 2.00 pm

A wnaiff yr Aelod Cabinet ddatganiad am y cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud i ddatblygu achos busnes Cam 3 WelTag ar gyfer Ffordd Osgoi Cas-gwent?

Eglurodd yr Aelod Cabinet fod y Cyngor Sir wedi cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru am Grant y Gronfa Trafnidiaeth Leol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon i ddatblygu achos busnes manwl ar gyfer ffordd liniaru traffig Cas-gwent. Yn anffodus, roedd yr agwedd hon ar y cais am gyllid yn aflwyddiannus. Fel y nodwyd yn gynharach yn y cyfarfod gan y Cynghorydd Sirol Paul Griffiths, dim ond un rhan o ystod o atebion sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r pwysau teithio presennol ac yn y dyfodol trwy Gas-gwent yw'r ffordd osgoi.

Ddiwrnod ynghynt, cyfarfu'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd â'i aelodau cyfatebol yng Nghyngor Sir Caerloyw i siarad am heriau ac amcanion cyffredin ynghylch y teithio trawsffiniol a byddant yn cydweithio'n agos i lobïo am y gwelliannau angenrheidiol.

Roedd yr Aelod Cabinet yn falch o hysbysu'r Cyngor bod y cynigion ar gyfer Hyb Trafnidiaeth Cas-gwent wedi sicrhau cyllid ar gyfer dyluniad manwl WelTag 3 y flwyddyn ariannol hon ac mae'r gwaith hwn bellach wedi'i gwblhau, gan ein rhoi mewn sefyllfa gref i wneud cais am gyllid y flwyddyn nesaf. Bydd hyn yn caniatáu gweithredu cyfres o opsiynau teithio ac yn helpu i leddfu rhai o'r problemau traffig.

Diolchodd y Cynghorydd Sirol Pavia i'r Cynghorydd Sirol Maby am ei hymateb a mynegodd siom ynghylch canlyniad yr achos busnes a gofynnodd a allai rannu gohebiaeth â LIC yn dilyn y cyfarfod i ddeall y rhesymeg.

15. Gan y Cynghorydd Sirol Paul Pavia i'r Cynghorydd Sirol Martyn Groucutt, Aelod Cabinet dros Addysg

A wnaiff yr Aelod Cabinet ddatganiad am gynlluniau'r weinyddiaeth i ddatblygu ymhellach darpariaeth blynyddoedd cynnar yng Nghas-gwent?

Ymatebodd yr Aelod Cabinet fod yr asesiad digonolrwydd gofal plant wedi'i gwblhau gan Gyngor Sir Fynwy yn gynharach yn y flwyddyn, a'i fod wedi cael ei ystyried a'i gytuno gan y Cabinet ar y 2^{il} Mawrth 2022. Ni nododd yr astudiaeth unrhyw fylchau sylweddol mewn gofal plant yn ardal Cas-gwent. Mae'r nifer sy'n manteisio ar leoedd addysg gynnar yn cael ei fonitro'n dymhorol ac yn nhymor yr haf diwethaf roedd 85%, a dyna pryd y mae ar ei uchaf. Mae'r prif fwlch mewn perthynas â gwarchodwyr plant ac mae'r mater hwn yn broblem ledled y Sir. Maent yn gweithio'n agos gyda'r Gymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar, sefydliad ymbarél sy'n arbenigo mewn gwarchodwyr plant, i geisio recriwtio gwarchodwyr plant newydd a chefnogi gwarchodwyr plant presennol i helpu i'w cadw.

Mae cyflwyno gofal plant Dechrau'n Deg ar gyfer plant dwy oed yn debygol o gynyddu'r galw am leoedd, ond ar hyn o bryd mae llefydd gwag yn y lleoliad Dechrau'n Deg yng Nghas-gwent. Mae yna hefyd feithrinfa ddydd yn ardal Cas-gwent sydd wedi cynyddu nifer y lleoedd cofrestredig yn ddiweddar ac sy'n gallu cynnig mwy o lefydd i blant dwy oed.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet y bydden nhw'n parhau i fonitro'r sefyllfa ac yn datblygu lleoedd gofal plant ychwanegol i ateb y galw pe bai angen.

Fel mater atodol, gofynnodd y Cynghorydd Sirol Pavia pa gamau rhagweithiol y mae'r weinyddiaeth yn eu cymryd i baratoi'r ffordd i sefydlu darpariaeth feithrin drwy gyfrwng y Gymraeg.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 1af Rhagfyr, 2022 at 2.00 pm

Mewn ymateb dywedodd yr Aelod Cabinet ei fod wedi ymrwymo i gefnogi'r ddarpariaeth yn Nhrefynwy ac y gallai geisio cryfhau'r gefnogaeth ar gyfer cyfrwng Cymraeg yng Nghas-gwent hefyd.

16. Gan y Cynghorydd Sirol Christopher Edwards i'r Cynghorydd Sirol, Aelod Cabinet dros Addysg

A allai'r Aelod Cabinet dros Addysg hysbysu'r cyngor am unrhyw fuddsoddiad arfaethedig yn y dyfodol y mae'r weinyddiaeth bresennol yn bwriadu ei wneud yn Ysgol Cas-gwent wrth i ni aros am gynnydd gyda rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif?

Eglurodd yr Aelod Cabinet fod y Cyngor wedi gwario dros £3m ar Ysgol Gyfun Cas-gwent yn ystod y pum mlynedd diwethaf gan wella'r cyfleusterau. Mae'r datblygiadau hyn wedi cael eu hadrodd i'r Cyngor o'r blaen. Ochr yn ochr â'r gwaith ailfodelu ac adnewyddu, gwariwyd arian o eitemau cynnal a chadw fel drysau, ffenestri a larymau tân.

Bydd gwaith cynnal a chadw a gwella yn parhau yn yr ysgol megis cam dau'r gwaith ar gyfer y cwadrangl sydd wedi'i drefnu ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Mae'r cyllid hwn ochr yn ochr â'r buddsoddiad y mae MonLife wedi'i wneud i'r cyfleusterau y gall yr ysgol eu defnyddio, ac yn sicrhau bod yr adeilad yn parhau i fod yn addas i'r diben ar gyfer disgyblion sy'n mynychu'r ysgol.

Y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yw'r fenter Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif newydd ac mae'n rhaglen fwy ystwyth. Mae'n rhaid i ni adolygu ac ailgyflwyno ein rhaglen erbyn mis Mawrth 2024. Mae hyn er mwyn annog trosglwyddiad llyfn, gan ddileu'r camau stopio/dechrau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen fuddsoddi cyfnod penodol cyfredol.

Fel mater atodol, gofynnodd y Cynghorydd Sirol Edwards a oedd yr aelod Cabinet yn cytuno y gellid gwneud mwy mewn perthynas â thrawsnewid mwy o ystafelloedd dosbarth yn Ysgol Cas-gwent i'w gwneud yn amgylchedd dysgu gwell, fel y cyflawnwyd yn y blynyddoedd blaenorol, ac a allai sicrhau bod hyn yn cael ei wneud mewn unrhyw raglen bresennol o welliannau yn Ysgol Cas-gwent.

Mae'r Aelod Cabinet wedi cael sgysiau gyda'r Pennaeth a'r swyddog cyllid ac maent yn fwy na bodlon gyda maint y buddsoddiad y mae'r awdurdod wedi'i wneud. Mae trafodaethau wedi cynnwys sut olwg fyddai natur y ddarpariaeth wrth i ni symud ymlaen.

17. Gan y Cynghorydd Sirol Christopher Edwards i'r Cynghorydd Sirol Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd

A allai'r aelod cabinet hysbysu'r cyngor am gynnydd gyda'r cais am gyllid grant i Lywodraeth Cymru yn 2022/23 ar gyfer cynllun llwybrau mwy diogel mewn cymunedau ar gyfer gwaith gwella diogelwch ar y ffordd ar gyfer Ffordd St Lawrence (rhwng Kingsmark Lane a chylchfan y Cae Ras), Cas-gwent.

Rhannodd yr Aelod Cabinet y pryderon ynghylch diogelwch ar y ffordd ac eglurodd fod y cais am gyllid ar gyfer gwelliannau i ardal Welsh Street ac ardal St. Lawrence wedi bod yn aflwyddiannus. Mae swyddogion bellach yn ystyried y ffordd orau o gyflawni'r gwelliannau ac yn cynnig gwneud ail gais am arian grant yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Mae swyddogion hefyd yn edrych ar ba gamau eraill y gellir eu cymryd i gefnogi cais y CDLI yn Bayfield ac i sicrhau bod cysylltiad da rhwng y datblygiad newydd â chanol y dref a'r orsaf drenau.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 1af Rhagfyr, 2022 at 2.00 pm

Fel mater atodol, gofynnodd y Cyngorydd Sirol Edwards a fyddai'r Aelod Cabinet yn ymuno ag ef ar St. Lawrence Road i weld y materion a gobeithio symud y gwaith i fyny'r rhestr flaenoriaethau neu ganiatáu iddo weld unrhyw adborth gan Lywodraeth Cymru ar y cais am gyllid aflwyddiannus.

Mewn ymateb roedd y Cyngorydd Sirol Maby yn awyddus i siarad a chydweithio i geisio gwella'r cais yn y dyfodol a thrafod yn fanylach pa welliannau eraill y gellid eu gwneud.

18. Cyfarfod nesaf – 19 Ionawr 2023

Nodwyd.

The meeting ended at 6.00 pm